Croeso i Fwletin Casnewydd yn Un

Rhifyn 12 – Mawrth 2015

Mae'r Bwletin yn cynnig diweddariad ar Bartneriaeth Casnewydd yn Un a Chynllun Integredig Sengl Casnewydd

Ffôn: (01633) 656656 / E-bost: one.newport@newport.gov.uk

onenewportlsb.newport.gov.uk/ / @OneNewport

Diweddariad>> Partneriaeth Casnewydd yn Un

Rheoli Perfformiad y Cynllun Integredig Sengl (CIS)

Fel y nodwyd yn Fframwaith Rheoli Perfformiad Casnewydd yn Un caiff pob un o Themâu'r CIS eu hadrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) ar amserlen dreigl gan ddefnyddio templed dangosfwrdd.

Yn y BGLl a gynhaliwyd ar y 3ydd Mawrth 2015 cyflwynwyd cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau ar gyfer y Themâu CIS canlynol:

- Thema Sgiliau a Gwaith (Adroddiad Dangosfwrdd)
- Thema Cyfle Economaidd (Adroddiad Dangosfwrdd)
- Thema Canol y Ddinas (Adroddiad Dangosfwrdd)
- Thema Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau (Adroddiad Dangosfwrdd)

Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol asesu'r cynnydd drwy sicrhau bod cynnydd yn erbyn pob blaenoriaeth yn foddhaol; adolygu'r prif gyflawniadau a llwyddiannau allweddol; sicrhau bod ardaloedd nad oeddynt yn cyrraedd targedau yn cael sylw drwy gamau gweithredu lliniarol; a sicrhau bod risgiau'r thema yn cael sylw drwy gamau gweithredu lliniarol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am yr adroddiadau perfformiad hyn, cysylltwch â'r Tîm Polisi Partneriaeth dros e-bost: one.newport@newport.gov.uk.

Diweddariad>>> Partneriaeth Casnewydd yn Un

Atlas Casnewydd

Gallwch nawr gael mynediad at yr Asesiad Anghenion Unedig diweddaraf trwy Atlas Casnewydd.

Mae Atlas Casnewydd, (y borthol wybodaeth ar gyfer Bwrdd Gwasanaeth Lleol Casnewydd Yn Un a'r hafan ar gyfer gwybodaeth a deallusrwydd am Gasnewydd a'i chymunedau) yn ddatblygiad amlasiantaethol sydd wedi ei ddylunio i ddarparu siop un stop ar gyfer dadansoddi data a mapio i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.

Bydd datblygiad arsyllfa ddata Atlas Casnewydd yn galluogi proffiliau ward ac ystadegau eraill i gael eu cyhoeddi i gefnogi datblygiad yr Asesiad Anghenion Unedig.

Gweithredu yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae swyddogion lleol ym Maendy wedi mabwysiadu agwedd 'dim goddefgarwch' tuag at bobl ifanc sy'n achosi ofn a phryder i'r gymuned leol o gwmpas parc Beechwood ym Maendy. Bu cynnydd yn yr adroddiadau ym mis Ionawr a Chwefror gan drigolion a oedd yn pryderu am bobl ifanc yn gweiddi, yn rhegi a bod yn sarhaus tuag at drigolion lleol, gan daflu cerrig a fandaleiddio cerbydau. Mae swyddogion wedi bod yn patrolio'r parc a'r ardaloedd cyfagos ac mae gorchmynion gwasgaru wedi cael eu defnyddio i symud unrhyw bobl ifanc a oedd yn creu trafferth o'r ardal am hyd at 24 awr – os fyddent yn dychwelyd byddent mewn perygl o gael eu harestio er mwyn atal rhagor o ymddygiad gwael.

Cofnodwyd manylion unrhyw bobl ifanc a oedd yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac anfonwyd llythyrau rhybudd at eu rhieni yn esbonio bod eu plentyn wedi bod yn rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol a hefyd pe bai'r ymddygiad yn parhau, bydd y plentyn yn wynebu Contract Ymddygiad Derbyniol sy'n gosod safonau ymddygiad y mae'n rhaid i'r teulu a'r person ifanc gytuno â hwy. Os yw'r ymddygiad yn parhau, bydd y person ifanc yn wynebu Gwaharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n gosod amodau ar ymddygiad yr unigolyn dan sylw am ddwy flynedd ac os torrir yr amodau, gall arwain at arestiad a chollfarn a allai olygu hyd at bum mlynedd yn y carchar.

Hyd yn hyn, mae cyfanswm o 78 o lythyrau rhybudd wedi'u hanfon at deuluoedd y plant a oedd yn troseddu yn yr ardal ac mae 5 cytundeb ymddygiad teulu wedi'u rhoi. Mae'r swyddogion yn gweithio'n agos gyda darparwyr tai cymdeithasol lleol a gall tenantiaethau teuluoedd sy'n rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol gael eu hadolygu os yw'r ymddygiad yn parhau. Esboniodd y Rhingyll Sarah Davies:

> "Rydym yn cymryd adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol a difrod troseddol cysylltiol o ddifri. Ni ddylai aelodau'r cyhoedd orfod byw â sarhad ac aflonyddwch ac fel yr ydym wedi dangos, byddwn yn ymdrin ag unrhyw droseddwyr yn gyflym er mwyn stopio'r math hwn o ymddygiad yn ein cymuned. Rydym am ddiolch i'r rhieni am eu cefnogaeth barhaus sydd mor bwysig er mwyn rhoi stop ar y cylch ymddygiad hwn."

Diweddariad>>> Partneriaeth Casnewydd yn Un

Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) Casnewydd yn Un - Diweddariad Ebrill 2015

Cytunodd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Casnewydd yn Un i ddiweddaru strwythur y bartneriaeth yng Nghasnewydd o fis Ebrill 2015. Mae'r nifer o themâu blaenoriaeth wedi gostwng o chwech i dri, bydd mwy o bwyslais ar fynd i'r afael â thlodi a mynd i'r afael ag anghenion grwpiau sy'n agored i niwed, a mwy o ffocws ar flaenoriaethau a chamau gweithredu sy'n seiliedig ar leoliad daearyddol.

Strwythur Diwygiedig y Bartneriaeth Ebrill 2015

Bydd y strwythur nawr yn cynnwys:

- y **Bwrdd Gwasanaethau Lleol**, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am waith partneriaeth a gweithredu'r Cynllun Integredig Sengl (CIS) ar gyfer y ddinas. Mae'r CIS yn amlinellu'r prif flaenoriaethau ar gyfer gwella'r ddinas yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- y **Bwrdd CIS**, sy'n gyfrifol am oruchwylio gwaith o gyflawni'r prosiectau eraill allwedd BGLl neu raglenni CIS.
- **tair thema blaenoriaeth** - Economi a Sgiliau, Iechyd a Lles, Cymunedau Diogel a Chydlynol.
- **dwy thema trosfwaol** - Mynd i'r Afael â Thlodi a Grwpiau Agored i Niwed.

Cefnogir y strwythur hwn gan y Grŵp Perfformiad, sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd pob thema â blaenoriaeth. Arweinir y gwaith hwn gan y Tîm Polisi Partneriaeth o fewn Cyngor y Ddinas.

Am ragor o wybodaeth am y Bwrdd Gwasanaethau Lleol neu'r bartneriaeth sy'n gweithio yng Nghasnewydd, ewch i wefan Casnewydd yn Un http://onenewportlsb.newport.gov.uk neu cysylltwch â'r Tîm Partneriaeth a Pholisi yn onenewport@newport.gov.uk.

Panel Cynnwys Dinasyddion Casnewydd

Mae gan lawer o awdurdodau lleol a Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLlau) Banel Dinasyddion er mwyn annog dinasyddion a'r awdurdod lleol i gyfathrebu'n well â'i gilydd a helpu cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd.

Gall trigolion Casnewydd sydd am ymuno â'r panel dinasyddion a chael arolygon chwarterol rheolaidd gwblhau ffurflen gais (**pdf**) a'i dychwelyd drwy'r manylion a nodir.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i dudalen gwe Cynnwys Casnewydd.

Newyddion / Digwyddiadau>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>> Partneriaeth Casnewydd yn Un

Co-op Bwyd – Casnewydd

Co-op Bwyd - Casnewydd

Co-op Bwyd Maesglas	Canolfan Gymunedol Maesglas, Heol Bideford	Dydd Mawrth 11yb-12.00
Co-op Bwyd Duffryn	Cwrt Nightingale, Duffryn	Dydd Mercher 10.30yb-12.00
Co-op Bwyd Church Court	11 Church Court, St Julians	Dydd Mercher 12-1yp
Co-op Bwyd Nany y Felin	Ysgol Gynradd Nant y Felin, Ffordd Parret, Bettws	Dydd Mercher 3yp*
Co-op Bwyd Uwchradd Duffryn	Ysgol Uwchradd Duffryn, Heol Goleudy, Duffryn	Dydd Mercher 3.20yp*
Co-op Bwyd Pill Mill	'The Pill Box', Sytryd Eglyws, Pillgwenlly	Dydd Iau 10.30-12.30yp
Co-op Bwyd Alway	Canolfan Gymunedol Alway, Parad Alway, Alway	Dydd Iau 11.00yb-12.00
Co-op Bwyd Shaftesbury	Canolfan Gymudedol Shaftesbury, Stryd Evans	Dydd Iau 11yb-1yp
Co-op Bwyd Moorland & Broadmead	Canolfan Gymunedol Dwyrain Casnewydd, Parc Moorland	Dydd Iau 9yb-5yp
5 A Day Takeaway	Coleg Gwent, Gampfa Casnewydd, Heol Nash	Dydd Iau 11yb-1yp*
Co-op Bwyd Malpas	Ysgol Gynradd Malpas Court, Rhodfa Whittle, Malpas	Dydd Iau 3yp*
Co-op Bwyd Canolfan Casnewydd	1 Ffordd y Brenin, Casnewydd	Dydd Gwener 11-11.30yb
Co-op Bwyd Ysgol Feithrin Fairoak	Ysgol Feithrin Fairoak, Heol Eglwys	Dydd Gwener 11.20y&2.50yp*
Co-op Bwyd Eveswell	Ysgol Gynradd Eveswell, Heol Cas-gwent	Dydd Gwener 1.30-3yp*
Co-op Bwyd Ysgol Iau y Gaer	Heol Gaer, Gaer	Dydd Gwener 3.10yp*
Co-op Bwyd Monnow	Ysgol Gynradd Monnow, Clos Darent, Bettws	Dydd Gwener 3.15yp*

* yn ystod y tymor yn unig

www.coopsbwydcymru.org.uk / www.facebook.com/RRUFoodCooperatives

Rebecca May – 07807 003039 / rebecca.may@rru.org.uk

Newyddion / Digwyddiadau>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>> Partneriaeth Casnewydd yn Un

Self-Management Courses – Newport Mind

The Changing Minds Project, funded by the Big Lottery, works with young people in Newport, aged 14-25, with mental health difficulties. The project has offered young people the opportunity to access self management courses, one to one transition support and the opportunity to be matched with a peer support volunteer.

We will continue to offer help to young people experiencing mental health difficulties for the next four years whilst also rolling out our programme across the whole of Gwent. We wish to thank all our young volunteers for their hard work over the last year and know that they will go on to inspire hope and confidence in other young people in the future.

If you are a young person in Newport, aged 14-25, who would like some help and support with their mental health, or become a peer support volunteer, please contact the Changing Minds team on changingminds@newport-mind.org or, catch up with us on Facebook facebook.com/changingmindsnewport / http://www.changingmindsproject.org.uk/.

Here are the dates for our next upcoming courses (2015) so please get in touch if you would like to attend.

Course	Date	Time	Location
Volunteer Peer Mentor Training	Session 1 – Friday 22nd May Session 2 – Friday 29th May Session 3 – Friday 5th June	10:00-16:00	Newport Mind
Manage Your Mind	Session 1 – Wednesday 29th April Session 2 – Wednesday 6th May	09.30-12:30	Newport Mind
Lifting Low Mood	Session 1 – Tuesday 2nd June Session 2 – Tuesday 9th June Session 3 – Tuesday 16th June Session 4 – Tuesday 23rd June	16:30-18:30	Newport Mind
Young Persons Anxiety Management	Session 1 – Tuesday 4th August Session 2 – Tuesday 11th August Session 3 – Tuesday 18th August Session 4 – Tuesday 25th August	09:30-11:30	Newport Mind

Newyddion / Digwyddiadau>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>> Partneriaeth Casnewydd yn Un

Health & Well Being Event - Friday 10 April 2015

WE ARE MACMILLAN. CANCER SUPPORT

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Moving on together!

When: Friday 10 April 2015

Time: 10.00am to 3.00pm

Where: The Newbridge Memo, High Street, Newbridge NP11 4FH

This is an opportunity to meet other people and find out how you can improve your recovery.

There will be sessions held including:

- physical activity
- eating for health
- finance, benefits & returning to work

Do bring a relative or friend if you wish. Lunch & refreshments will be provided.

To book, please call Susan Jenks, Macmillan Person Centred Care Project Manager, on **01633 238993.** *Speak to your **Clinical Nurse Specialist** for more information*

Newyddion / Digwyddiadau>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>> Partneriaeth Casnewydd yn Un

Sparkle Free Family Fun Day

Newyddion / Digwyddiadau>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>> Partneriaeth Casnewydd yn Un

Prosiect Troseddau Casineb sy'n Anelu at Wella Canlyniadau ar gyfer Dioddefwyr ac Asiantaethau

Mae'r Prosiect Eiriolaeth a Grymuso Dioddefwyr Troseddau Casineb yn cael ei redeg gan Gydraddoldeb Hiliol De-ddwyrain Cymru (SEWREC) ac yn brosiect partneriaeth gyda Race Equality First yng Nghaerdydd a Chyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd (VALREC). Mae'r prosiect yn derbyn arian gan y Loteri Fawr ac yn cwmpasu de-ddwyrain Cymru i gyd.

Beth yw trosedd casineb?

Gall trosedd casineb (neu ddigwyddiad) gynnwys unrhyw drosedd a ystyrir, gan y dioddefwr neu rywun arall, fel un wedi'i hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail nodwedd bersonol. Gall troseddau casineb gael eu hysgogi gan anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, 'hil' ac ethnigrwydd, crefydd neu gred, a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'n bwysig bod pob trosedd casineb yn cael ei hadrodd, ond, yn anffodus, mae llawer heb eu hadrodd o hyd, sy'n golygu nad yw dioddefwyr yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt, nad yw troseddwyr yn cael eu cosbi, a bod gan asiantaethau cyhoeddus ddarlun anghyflawn o'r broblem o hyd.

Sut y gallwn helpu?

Gall Prosiect Eiriolaeth a Grymuso Dioddefwyr Troseddau Casineb SEWREC helpu pobl:

- Gyda gwybodaeth ar sut i adrodd (yn ddienw os ydynt yn dymuno) a'r hyn y gallant ei ddisgwyl digwydd nesaf.
- I gysylltu â'r heddlu.
- Trwy eirioli dros ac ar ran dioddefwyr drwy gydol y broses.
- Trwy weithio gyda chymunedau er mwyn herio troseddau casineb.

Dros yr ychydig fisoedd nesaf, byddwn yn dechrau cynnal sesiynau galw heibio mewn canolfannau cymunedol, canolfannau ieuenctid ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol a chanolfannau ieuenctid ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, mannau addoli, a sefydliadau addysg.

Dywedodd un o gleientiaid cyntaf SEWREC mewn perthynas â throseddau casineb crefyddol fod y prosiect wedi gwneud gwahaniaeth mawr iddynt: "Heb gefnogaeth Swyddog Eiriolaeth SEWREC, ni fyddwn wedi cael yr hyder i herio a gwrthwynebu fy nghydweithwyr yn y gweithle ac i herio sylwadau cas a niweidiol."

Am fwy o wybodaeth, cyngor neu gymorth Cysylltwch â:

SEWREC ar (01633) 250006 a gofyn am Shaheen, neu ewch i'n gwefan: www.sewrec.wales.

Newyddion / Digwyddiadau>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>> Partneriaeth Casnewydd yn Un

Residential Care Volunteering

OUR PROJECT "CARE TO LISTEN...LISTEN TO CARE"

We are working with older people who are residents in care homes and their families to help older people receive the support in the way that they want. Our aim is to listen to the voices of the residents and their families in order to gain a better understanding of which services are working well and which ones might be improved.

Our project is very much based on dignity, choice and age equality. We will match the older person with a volunteer who can communicate with them in the most effective way to make it an enjoyable experience for all. We work in close partnership with the residents, their families, the care homes, NHS and service providers.

With the support of Community Voice, we have established an exciting and innovative research and engagement project covering Monmouthshire, Newport, Caerphilly and Blaenau Gwent. Together we are working to develop and share good practice and to ensure that older people have the best possible quality of life, with choices and services that better meet their needs.

GET IN TOUCH

CONTACT US IF YOU WOULD LIKE TO VOLUNTEER WITH OUR PROJECT

We work across Caerphilly, Blaenau Gwent, Newport and Monmouthshire.

If you would like more details, please get in touch with
Nina Finnigan - Service Manager

07436 531165
residential.care@royalvoluntaryservice.org.uk

OR
Cath Macarthur - Volunteer Co-ordinator

07436 531164
catherine.macarthur@royalvoluntaryservice.org.uk

Visit www.royalvoluntaryservice.org.uk

@royalvolservice royalvoluntaryservice

INVESTORS IN PEOPLE

ROYAL VOLUNTARY SERVICE
Together for older people

Valley Voices

Volunteers do not replace carers and are never asked to provide personal care.

Royal Voluntary Service is a company limited by guarantee registered in England and Wales with company number 2520413. Registered office Beck Court, Cardiff Gate Business Park, Cardiff CF23 8RP. Registered charity 1015988 (England and Wales) & SC038924 (Scotland).

USE YOUR EXPERIENCE VOLUNTEER

"CARE TO LISTEN.... LISTEN TO CARE"

ROYAL VOLUNTARY SERVICE
Together for older people

TOGETHER LIFE'S HAPPIER

The Royal Voluntary Service is one of the largest volunteer organisations in the country. Our volunteers share time with older people because it's enjoyable, rewarding and inspiring.

Do you have good listening skills, relate to people with tact and diplomacy and are a genuine caring person? We are looking for volunteers from all ages and cultural backgrounds and would love to hear from you. We are keen to find volunteers with a background in health and social care, community development or working with older people.

As a volunteer with "Care to Listen...Listen to Care" you will receive training and support to help you participate in your community in a whole new way.

To find out more about volunteering, please call us for a chat on 0845 601 4670* or visit www.royalvoluntaryservice.org.uk

IT'S FLEXIBLE

- There are no fixed hours for volunteering with us, you give the amount of time that suits you
- It can be a couple of hours every month or twice a week
- We provide all the essential training and DBS checks
- If you volunteer with us, you'll be part of a very special team working together on this exciting project
- We also have fun – tea parties in the care homes and social and seasonal events!

GET TO KNOW SOME REALLY INTERESTING PEOPLE

"Care to Listen...Listen to Care" is also about getting to know some of the most interesting people and enjoying their company. The older people we speak to in the residential care homes have a unique perspective on life and they are a constant source of inspiration that too few of us get to know.

> "Volunteering is also a great way to show your commitment and get something worthwhile on your CV."

COMMUNITY VOICE IN GWENT

The Royal Voluntary Service has been awarded funding for four years as part of the Big Lottery's Community Voice programme. Community Voice ensures more people can influence policy and decisions about services in their communities and providers will be able to work together to design and deliver improved services.

OLDER PEOPLE'S VOICES WILL BE HEARD AND THEIR LIVES AND YOUR LIFE WILL BE CHANGED FOR THE BETTER.

Newyddion / Digwyddiadau>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>> Partneriaeth Casnewydd yn Un

Ymddiriedaeth dinas newydd yn paratoi ar gyfer lansiad Ebrill

O Ebrill 1, bydd Canolfan Glan yr Afon a chanolfannau hamdden sy'n eiddo Cyngor Dinas Casnewydd - Canolfan Casnewydd, Felodrôm Cenedlaethol Cymru, pyllau rhanbarthol a chanolfan tennis a Chanolfan Byw'n Heini yn cael eu rhedeg gan sefydliad dosbarthu dielw - a elwir hefyd yn ymddiriedolaeth.

Mae enw'r sefydliad newydd yw Casnewydd BYW ac mae bwrdd yr ymddiriedolwyr wedi cael eu penodi a byddant yn gyfrifol am redeg y gwasanaethau diwylliannol chwaraeon a hamdden a ddarperir ar hyn o bryd gan y cyngor.

Cytunodd cabinet y cyngor ym mis Mai diwethaf y bydd gwasanaethau chwaraeon a hamdden y cyngor yn cael eu darparu gan ymddiriedolaeth.

Mae sefyllfa ariannol anodd y cyngor wedi cael ei nodi'n dda gyda'r awdurdod lleol yn gorfod gwneud arbedion o fwy na £25m dros y pedair blynedd nesaf.

Cytunwyd ym mis Rhagfyr y llynedd y byddai canolfan theatr a chelfyddydau Glan yr Afon y cyngor yn cael ei integreiddio i mewn i'r ymddiriedaeth a byddai felly'n dod yn sefydliad chwaraeon, hamdden a diwylliannol.

Byddai integreiddio'r gwasanaethau chwaraeon, hamdden a theatr mewn ymddiriedolaeth ddiwylliannol yn galluogi'r cyngor i wneud arbediad blynyddol parhaus o £562,000.

Bydd y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth cyffredinol yn annhebygol o weld unrhyw newidiadau cychwynnol, ond bydd yr holl drigolion yn elwa ar unwaith o'r ffyrdd mwy cynaliadwy y gall y gwasanaethau hyn gael eu darparu gan yr ymddiriedaeth ddiwylliannol, chwaraeon a hamdden sydd newydd ei ffurfio.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am Bartneriaeth Un Casnewydd a / neu'r Cynllun Integredig Sengl, cysylltwch â'r Tîm Cymorth Partneriaeth drwy: one.newport@newport.gov.uk.